Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 7 Chwefror 2023 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | P Downing | A J Jeffery |
| M H Jones | S E Keeton | M B Lewis |
| R D Lewis | N L Matthews | T M White |
| R A Williams | | |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu |
| Eilian Jones | Arweinydd Tîm Ardal |
| Hayley Kemp | Arweinydd Tîm Ardal |
| Amanda Pugh | Uwch-beiriannydd |
| Jonathan Wills | cyfreithiwr arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M Bailey

---

## 42 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 43 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2023 fel cofnod cywir.

## 44 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl.

Dim.

## 45 Penderfynu ar geisiadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Cyflwynwyd cais cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cais cynllunio y cyfeirir ato isod.

**(Eitem 1) – Cais Cynllunio 2022/1438/S73 - Adeiladu 20 annedd ar wahân, garejys a gwaith mynediad a thirlunio cysylltiedig, a dymchwel Rhif 188 St Teilo Street (Amrywiad ar amod 2 caniatâd cynllunio 2018/1014/FUL a roddwyd ar 5 Mawrth 2019) i ganiatáu ar gyfer newidiadau i Leiniau 11 a 12 a llwybr newydd i gerbydau a chyffyrdd siâp T estynedig ar dir a adwaenid yn flaenorol fel The Gardens a'r tu ôl i 188 St Teilo Street, Pontarddulais, Abertawe.**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Cymeradwywyd y cais yn amodol ar gytundeb A106.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.28 pm

**Cadeirydd**